Planning Pembrokeshire's Future

Local Development Plan

# NODYN CYNGHOROL

## Diogelu at ddibenion cynllunio

I'w ddefnyddio ochr yn ochr â:

**Cynllun Datblygu Lleol – Mabwysiadu (2013) i 2021**

**CYNGOR SIR PENFRO** **Rhagfyr 2014**

## Cynnwys


| *Adran* | *Enw* | *Tudalen* |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Gweithfeydd peryglus gyda pharthau ymgynghori'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | 4 |
| 3 | Meysydd awyr masnachol gyda pharthau diogelu cysylltiedig | 4 |
| 4 | Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u gwarchod gan barthau diogelu | 5 |
| 5 | Piblinellau eraill wedi'u gwarchod gan barthau ymgynghori | 6 |
| 6 | Goleuadau llywio a mastiau radio | 7 |
| 7 | Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr Codi | 8 |
| 8 | Ardaloedd agored i lifogydd | 9 |
| 9 | Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr | 11 |
| 10 | Cynlluniau cludiant gwarchodedig | 11 |
| 11 | Gweithfeydd lle terfynwyd diogelu blaenorol | 11 |

**Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r nodyn cynghorol hwn ar ddiogelu at ddibenion cynllunio'n cyfeirio'n benodol at y canlynol:

- Gweithfeydd peryglus wedi'u gwarchod gan barthau ymgynghori'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- Meysydd awyr masnachol;
- Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn (gan gynnwys meysydd awyr y Weinyddiaeth Amddiffyn);
- Piblinellau;
- Goleuadau llywio / mastiau radio;
- Parthau diogelu ffynonellau dŵr codi;
- Ardaloedd sy'n agored i lifogydd;
- Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr; a
- Llwybrau / lleoliadau wedi'u gwarchod ar gyfer cynlluniau cludiant.

1.2 Mae Polisi GN.1 o Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor yn pennu Polisi Datblygu Cyffredinol, y bydd disgwyl i holl gynigion datblygu ei fodloni.

1.3 Mae GN.1, maen prawf 7 yn gofyn nad yw datblygiad yn achosi'n neu arwain at niwed annerbyniol i iechyd a diogelwch.

1.4 Dywed paragraff 6.9 o'r cyfiawnhad rhesymedig i bolisi GN.1:

*'Bydd penderfyniadau ar gynigion a wnaed o fewn parth diogelu gwaith neu weithfeydd presennol (gan gynnwys meysydd awyr) neu ar gyfer gwaith neu weithfeydd peryglus newydd yn cael eu hysbrydoli gan ganllawiau'r cyrff diogelu perthnasol ar oblygiadau iechyd a diogelwch y cynnig, gan gynnwys cydnawsedd â defnyddiau tir cyfagos a gerllaw a'r goblygiadau i lwybrau dynesu yn y cyffiniau. Bydd nodyn cynghorol ar wahân yn cael ei baratoi ar ba weithfeydd peryglus sydd â pharthau diogelu a sut mae cael rhagor o wybodaeth berthnasol i'r parthau hyn.*

1.5 Lle gall materion diogelu effeithio ar gynigion datblygu, dylai ceisiadau roi sylw i sut fydd y perygl yn cael sylw / ei liniaru.

2 Gweithfeydd peryglus gyda pharthau ymgynghori'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

2.1 Piblinellau perygl sylweddol (cywir ym mis Hydref, 2013)

Mae'r rhain yn cynnwys piblinellau Wales and West Utilities, National Grid Gas plc a RWE nPower plc.

*Dylid gofyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ragor o wybodaeth am y parthau ymgynghori hyn.*

2.2 Safleoedd perygl sylweddol (cywir ym mis Hydref 2013)

Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd Gorsaf Drydan Penfro, Waterston (Dragon LNG), Waterston (SEM Logistics), Aberdaugleddau (South Hook LNG), Aberdaugleddau (Purfa), Harbwr Abergwaun (Stena Sealink), Bethesda (The Granary, Vaynor Farm) a Nash (Strawberry Hill).

*Dylid gofyn i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am ragor o wybodaeth am y parthau ymgynghori hyn.*

3 Meysydd awyr masnachol gyda pharthau diogelu cysylltiedig

3.1 Maes Awyr Hwlffordd

Perchennog a gweithredwr: Cyngor Sir Penfro

Gweinyddu ardaloedd diogelu: Cyngor Sir Penfro (drwy'r Isadran Eiddo).

*Cyngor Sir Penfro sy'n gweinyddu'r parthau diogelu hyn ac maent ar gael i'w gweld, ar gais, o'r Isadran Eiddo.*

3.2 Maes Awyr Gorllewin Cymru, Aber-porth (Ceredigion)
Perchennog a gweithredwr: Anhysbys (gweinyddwr yw Maes Awyr Gorllewin Cymru Cyf)
Mae rhai o'r parthau diogelu cysylltiedig â'r cyfleuster hwn yn ymestyn i Sir Benfro. Newidiwyd y parthau diogelu yn 2005. Ar hyn o bryd, sefydlwyd proses diogelu maes awyr rhwng Maes Awyr Gorllewin Cymru Cyf a Chyngor Sir Penfro. Mae hyn yn ofyniad trwyddedu'r Awdurdod Hedfan Sifil a'r awdurdodau rheoleiddiol. Mae'r parthau sy'n ymestyn dros ogledd-ddwyrain Sir Benfro'n cyfeirio at gynigion ar gyfer adeiladau dros 45m ac 80m o uchder yn eu tro.

Maes Awyr Gorllewin Cymru Cyf sy'n gweinyddu'r parth diogelu. Ym mis Mawrth, 2010, dywedodd Rheolwr y Maes Awyr y paratowyd Canllawiau Dros Dro ar Ynni o'r Gwynt a Hedfan, sy'n gofyn hysbysiad gan ddatblygwyr safleoedd posibl ffermydd gwynt yng Ngorllewin Cymru.

Roedd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn defnyddio'r safle hwn yn flaenorol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi digideiddio parthau diogelu 2005 (mae gan Gyngor Sir Penfro gopi electronig). Roedd y wybodaeth ar gael i'r Cyngor ar yr amod nad oedd modd gwarantu ei gywirdeb oherwydd nad oedd y gwaith wedi dod o'r sefydliad gwreiddiol.

*Cysylltwch â Rheolwr Maes Awyr Gorllewin Cymru i gael rhagor o wybodaeth.*

4 Sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi'u gwarchod gan barthau diogelu

4.1 Canolfan Hyfforddi'r Fyddin yn y Maes, Castellmartin – diffiniwyd parthau ymgynghori mewnol ac allanol. Mae'r cyfleuster ei hun a'r parthau ymgynghori'n gyfan gwbl o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Felly, mae hyn ar gyfer gwybodaeth yn unig.

4.2 Maes Tanio Maenorbŷr – diffiniwyd tri pharth ymgynghori, un ohonynt yn cyd-redeg â therfyn y maes tanio. Mae'r cyfleuster ei hun a'r parthau ymgynghori'n gyfan gwbl o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Felly, mae hyn ar gyfer gwybodaeth yn unig.

4.3 Safle Technegol Barics Cawdor (Breudeth) – diffiniwyd un parth ymgynghori rheolaidd a thri afreolaidd, sef:

1) Parth 'unrhyw ddatblygiad';

2) Parth lle mae diogelu'n berthnasol i unrhyw adeilad, adeiledd neu weithfeydd mwy na 10.7m o uchder;

3) Parth lle mae diogelu'n berthnasol i unrhyw adeilad, adeiledd neu weithfeydd mwy na 15.2m o uchder; a

4) Parth lle mae diogelu'n berthnasol i unrhyw adeilad, adeiledd neu weithfeydd mwy na 45.7m o uchder.

Mae'r parthau diogelu'n cynnwys tir o fewn awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro.

4.4 Maes Awyr Tredeml – Safle Technegol Tredeml y Fyddin. Er nad yw'r maes awyr yn cael ei ddefnyddio gan awyrennau i lanio a chodi, mae'n dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer dynesu awyrennau. Mae dwy lain linellol yn diffinio'r llwybrau hedfan wrth ddynesu ac maent yn ymestyn i'r maes awyr. Mae gofynion ymgynghori'n bodoli pan fydd datblygiad arfaethedig o fewn y lleiniau hyn yn codi'n uwch nag uchderau penodol uwchlaw lefel môr cymedrig.

Mae'r parthau diogelu'n cynnwys tir yn awdurdodaeth gynllunio Cyngor Sir Penfro.

*Cysylltwch â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gael rhagor o wybodaeth.*

5 <u>Piblinellau eraill wedi'u gwarchod gan barthau ymgynghori</u>

5.1 Piblinell 3M – purfa Valero i Ganolbarth Lloegr – mae'n dal yn weithredol.

Dan reolaeth flaenorol Pipeline Management Ltd, gyda pharth ymgynghori 150m (nid yw Pipeline Management Ltd yn bodoli mwyach).

Nid yw'n amlwg pwy sy'n rheoli'r biblinell ar hyn o bryd na phwy sy'n gweinyddu'r parth diogelu.

5.2 Piblinell olew BP, Gorllewin Bae Angle i Landarsi – bu'n segur ers llawer blwyddyn a chafodd ei llenwi gyda sylwedd anadweithiol yn y 1990au cynnar.

Efallai ei bod yn dal dan reolaeth BP, ond mae'r sefyllfa o ran diogelu'n ansicr ac nid yw CSP yn gwybod pwy sy'n rheoli'r biblinell ar hyn o bryd na phwy sy'n gweinyddu'r parth diogelu, er y penderfynwyd nad yw naill ai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch na Fisher German (cwmni sy'n rheoli piblinellau hirfaith i gwmnïau eraill).

5.3 Piblinellau nwy – cyfeirnodwyd llawer o'r piblinellau perygl sylweddol eisoes yn y tabl ym mharagraff 2.1, oherwydd bod ganddynt barthau ymgynghori cysylltiedig yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Yn ogystal â'r rhain, mae nifer o biblinellau'n rhedeg drwy'r Sir, gyda gwybodaeth ar haenau mapio cynllunio at argyfwng y Cyngor yn dangos mai'r rhain yw:

a) Piblinell nwy LNG sy'n rhedeg o South Hook LNG i Dragon LNG (yn mynd heibio i'r gogledd o dref Aberdaugleddau) ac oddi yno'n dilyn llwybr trwy rannau gwledig o'r Sir, gan fynd heibio'n agos at bentrefi Rhosfarced, Freystrop, Cas-wis, Pont Canaston, Tredeml a Thafarn Ysbyty cyn croesi i gefn gwlad Sir Gâr. Diffiniwyd ardaloedd perygl gwledig a maestrefol, mannau ac eiddo allweddol (gan gynnwys croesfannau ffyrdd, rheilffyrdd a llwybrau) a chylchoedd maestrefol cysylltiedig â'r biblinell yn ofodol.

b) Piblinell nwy De Cleddau (o Orsaf Drydan Penfro i Blackbridge), yn cysylltu â’r biblinell nwy LNG yn Dragon LNG.

c) Piblinell nwy arfaethedig Chevron (Valero nawr) i Orsaf Drydan Penfro, yn cysylltu â phiblinell nwy De Cleddau.

Mewn rhai achosion, caiff y piblinellau eu gwarchod, yn rhannol o leiaf, trwy gyfamodau cyfreithiol.

*Cysylltwch â gweithredwyr y piblinellau (os ydynt yn hysbys) i gael rhagor o wybodaeth.*

6 <u>Goleuadau llywio a mastiau radio</u>

6.1 Golau Llywio’r Gwasanaeth Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) ym Mhen Caer, gyda pharthau ymgynghori cysylltiedig.

Mae 6 pharth ymgynghori o gwmpas y golau, 4 ohonynt wedi’u cadarnhau gan NATS:

1) Parth ‘holl ddatblygiadau’;

2) Parth lle mae diogelu’n berthnasol i ddatblygiadau mwy na 10m o uchder;

3) Parth lle mae diogelu’n berthnasol i ddatblygiadau mwy na 15m o uchder;

4) Parth lle mae diogelu’n berthnasol i ddatblygiadau mwy na 45m o uchder (heb ei gadarnhau);

5) Parth lle mae diogelu’n berthnasol i ddatblygiadau mwy na 90m o uchder (heb ei gadarnhau); a

6) Parth cysylltiedig â holl ffermydd gwynt.

6.2 Mae Mastiau Radio’r Gwasanaeth Traffig Awyr Cenedlaethol (NATS) yn Woodstock (ger Tufton), Crymych a Llandudoch, pob un gyda pharthau ymgynghori. Mae cyfleuster Llandudoch fymryn oddi mewn i Geredigion.

Mae parthau diogelu o gwmpas pob un o’r mastiau ac ar hyd y llinellau uniongyrchol rhyngddynt. Yn ogystal, mae diogelu ar hyd y llinell sy’n cysylltu mast Crymych â mast yn Sir Gâr.

*Cysylltwch â NATS i gael rhagor o wybodaeth.*

## 7. Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr Codi (SPZ)

7.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n diffinio Parthau Diogelu Ffynonellau Dŵr Codi (SPZ) ar gyfer amrywiaeth o wahanol ffynonellau fel ffynhonnau, tyllau turio a tharddelli sy'n cael eu defnyddio fel cyflenwad dŵr yfed cyhoeddus. Mae'r parthau hyn yn dangos perygl halogiad o unrhyw weithgareddau a allai achosi llygredd yn y cylch. Yr agosaf yw'r gweithgaredd, mwyaf y perygl. Mae'r mapiau'n dangos pedwar parth:

- Parth 1 – Parth Diogelu Mewnol – amser teithio o 50 diwrnod o unrhyw bwynt dan y lefel trwythiad i'r ffynhonnell. Radiws lleiaf y parth hwn yw 50 metr.
- Parth 2 – Parth Diogelu Allanol – amser teithio o 400 diwrnod o bwynt dan y lefel trwythiad. Radiws lleiaf y parth hwn yw 250m neu 500m o gwmpas y ffynhonnell, yn dibynnu ar faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu.
- Parth 3 – Dalgylch Llawn – yr ardal o amgylch ffynhonnell o fewn yr hwn y tybir bod holl adlenwi dŵr codi'n cyrraedd llygad y ffynnon. Mewn dyfrhaenau cyfyngedig, fe all dalgylch y ffynhonnell fod gryn bellter o'r ffynhonnell. O ran dyfrhaenau gyda llawer o dynnu, fe all y Parth Diogelu Dalgylch Ffynhonnell terfynol gael ei ddiffinio fel ardal gyfan adlenwi'r ddyfrhaen, pan fo'r gymhareb rhwng tynnu dŵr codi ac adlenwi'r ddyfrhaen yn fwy na 0.75. Rhaid dal i ddiffinio ardaloedd diogelu ffynonellau unigol i gynorthwyo gweithredwyr reoli'r dalgylch.
- Parth 4 – mae'r rhain yn berthnasol i ardaloedd o ddiddordeb arbennig, ond dim ond yn achlysurol y cânt eu defnyddio:

  Diffiniwyd parthau o ddiddordeb arbennig yn flaenorol ar gyfer rhai ffynonellau ond, yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu hymgorffori yn un o'r parthau eraill, neu ddod yn 'barth diogelu'.

Yn 2011, cyhoeddedig Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) Becyn Tystiolaeth Leol ar gyfer Sir Benfro, sy'n cynnwys map o'r Parthau Gwarchod Ffynonellau.

Yn gynharach, dywedodd yr un sefydliad fod parth ymgynghori 1km o gwmpas y Ffynhonnell Milton Spring.

*Cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael rhagor o wybodaeth.*

## 8 Ardaloedd sy'n agored i lifogydd

8.1 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (fel olynydd Asiantaeth yr Amgylchedd) yn cynhyrchu mapiau llifogydd manwl sy'n dangos perygl lifogydd. Yn ôl Pecyn Tystiolaeth Leol 2011 Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) ar gyfer Sir Benfro mae'r mapiau hyn ar gael ar ei gwefan. Dywed y ddogfen y nodwyd nifer o barthau llifogydd:

a) Parth llifogydd 2 – dyma amcangyfrif AAC (CNC nawr) o'r darnau tir rhwng parth llifogydd 3 a chyrhaeddiad llifogydd o afonydd neu'r môr gyda pherygl llifogydd 1000 i 1 yn unrhyw flwyddyn. Mae'n cynnwys ardaloedd a ddiffiniwyd ym mharth llifogydd 3.

b) Flood zone 3 – dyma amcangyfrif AAC (CNC nawr) o'r darnau tir gyda pherygl llifogydd o 100 i 1 (neu fwy) bob blwyddyn o afonydd, neu berygl llifogydd o 200 i 1 (neu fwy) bob blwyddyn o'r môr.

c) Ardaloedd dal llifogydd (hefyd yn cael eu galw'n gronfeydd dŵr cydbwyso, basnau cronni neu byllau cronni) – ardaloedd sydd â'r diben o wanhau penllanw gorlif sy'n cyrraedd fel bod sianel yr afon islaw'n gallu ei dderbyn. Fe all yr ardaloedd hyn hefyd oedi amseriad penllanw gorlif, trwy ganiatáu ei ryddhau dros gyfnod hwy.

8.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Mapiau Cyngor Datblygu. Mae Nodyn Cyngor Technegol Llywodraeth Cymru 15 (TAN 15) 'Datblygu a Pherygl o Lifogydd' yn rhoi canllawiau technegol mewn cysylltiad â datblygu a llifogydd. Yn ategu TAN 15 mae Mapiau Cyngor Datblygu (DAM), sy'n diffinio tri pharth:

Parth B – ardaloedd lle bu llifogydd yn y gorffennol, trwy dystiolaeth dyddodiadau gwaddodol;

Parth C1 – rhannau o'r gorlifdir a ddatblygwed ac sy'n cael eu gwasanaethu gan isadeiledd sylweddol, gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd; a

Parth C2 – rhannau o'r gorlifdir heb isadeiledd atal amddiffyn rhag llifogydd sylweddol.

8.3 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (fel olynydd Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru) wedi paratoi dau fap sydd, gyda'i gilydd yn ffurfio Mapiau Llifogydd Dŵr Arwyneb Asiantaeth yr Amgylchedd (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach). Isod mae rhagor o fanylion ynghylch pob map:

a) Y Map Llifogydd Dŵr Arwyneb yw prif ffynhonnell gwybodaeth genedlaethol. Hwn yw'r diweddaraf o'r ddau fap (a gyhoeddwyd yn 2011). Mae'n cynrychioli'r peirianwaith sy'n achosi llifogydd dŵr arwyneb yn well na'r map Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd Dŵr Arwyneb, er y gwnaed nifer o dybiaethau cenedlaethol. Mewn rhai ardaloedd, fe all y map hwn amcangyfrif yn rhy isel faint o dir sydd mewn perygl ac, o ganlyniad, mae'n ddoeth ei ddefnyddio ar y cyd â'r map Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd Dŵr Arwyneb.

Dengys y map ardaloedd lle byddai disgwyl i ddŵr arwyneb lifo neu gronni. Caiff dau ddigwyddiad glawogydd, un gyda pherygl o 1 mewn 30 a'r llall gyda pherygl o 1 mewn 200 o ddigwydd yn unrhyw flwyddyn, eu modelu a'u mapio. Mae'n rhoi syniad cyffredinol o ardaloedd a allai fod yn fwy tebygol o ddioddef llifogydd dŵr arwyneb yn ôl tebygolrwydd glawogydd fel hyn.

Ar gyfer pob tebygolrwydd glaw, mae'r map yn rhoi dwy ffeil siâp y bydd modd eu defnyddio'n unigol i ddangos a) llifogydd dŵr arwyneb – dyfnach na 0.1m a b) llifogydd dŵr arwyneb dyfnach – dyfnach na 0.3m.

b) Mae'r map 'Ardaloedd sy'n Agored i Lifogydd Dŵr Arwyneb' yn rhoi rhagor o wybodaeth ategol. Seiliwyd y set ddata gynharach hon (o 2009) ar dybiaethau brasach ac mae'n rhy geidwadol yn gyffredinol, gyda'r canlyniad ei fod weithiau'n dangos bod gornmod o arwynebedd tir mewn perygl. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae'n ddoeth ei ddefnyddio ar y cyd â'r Map Llifogydd Dŵr Arwyneb diweddarach.

*I gael rhagor o wybodaeth am y mapiau hyn, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru neu Llywodraeth Cymru, fel y bo'n briodol.*

Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (Cyngor Sir Penfro yn yr achos hwn) sydd i benderfynu pa wybodaeth i ddefnyddio – h.y. gwybodaeth genedlaethol neu wybodaeth leol, cofnodion hanesyddol neu fodelau.

Ni fwriadwyd i'r naill fap na'r llall fod yn ddiffiniol ac, yn yr un modd, nid yw'r naill na'r llall yn addas ar gyfer dangos a fydd llifogydd yn effeithio ar eiddo unigol. Y cyfan y gall y naill fap neu'r llall ei wneud yw nodi a yw man arbennig o fewn ardal y dangoswyd ei bod mewn perygl neu beidio.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn diffinio 'dŵr arwyneb'. Mae'r math o lifogydd sy'n cael eu dangos ar y Map Llifogydd Dŵr Arwyneb yn cyd-fynd â'r diffiniad hwn yn fras. Dyma'r llifogydd sy'n digwydd o'r 'dŵr ffo' ar ôl glaw (gan gynnwys eira a gwlybaniaeth arall) sydd a) ar wyneb y tir (boed yn symud neu beidio) a b) sydd heb gyrraedd cwrs dŵr, cyfundrefn ddraenio neu garthffos gyhoeddus eto.

9 Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr (AQMA)

9.1 Datganwyd Ardaloedd Rheoli Ansawdd yr Awyr yn mannau y canlynol:

a) Canol Hwlffordd; a

b) Stryd Fawr Penfro.

9.2 Mae Cyngor Sir Penfro nawr yn datblygu Cynlluniau Gweithredu ar gyfer y ddwy ardal mewn ymdrech i leihau allyriadau a chydymffurfio ag amcanion cenedlaethol ar ansawdd yr awyr. Ymgynghorodd â'r cyhoedd ar strategaethau lliniaru yn 2013.

9.3 Mae modd defnyddio AQMA i ysbrydoli penderfyniadau cynllunio.

*I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro.*

10 Cynlluniau cludiant gwarchodedig

10.1 Mae Polisi GN.39 yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn gwarchod amrywiol lwybrau a gwelliannau cludiant rhag datblygiad a fyddai'n debygol o beryglu eu gweithredu. Mae rhestr o'r pymtheg cynllun gwarchodedig yn y polisi a chaiff eu hyd a lled (pan fo'n hysbys) ei ddangos ar Fap Cynigion y CDLl.

10.2 O ran un o'r cynlluniau a restrir ym Mholisi GN.39, gwelliant ffordd yr A40 o Landdewi Efelffre i Benblewin, mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at y Cyngor (ym mis Ebrill 2010) yn dweud y bydd yn disgwyl ymgynghoriad ar unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol sydd o fewn 67 metr i linell wella'r ffordd.

*Mae'r CDLl ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor neu, ar bapur, yn Neuadd y Sir, Hwlffordd ac mewn llyfrgelloedd lleol.*

11 Gweithfeydd lle terfynwyd diogelu blaenorol

11.1 CBL Ceramics, Marble Hill Road, Aberdaugleddau.